ATODIAD A: ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau Plant o Dan Gyfyngiad) (Cyfyngiadau Trosiannol) (Cymru) 2026

1. Amcanioni Polisi

Y penderfyniad sy'n destun asesiad effaith yw a ddylid cyflwyno cyfyngiadau o dan Ran 1, Pennod 1 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2025 ("Deddf 2025") sy'n bodoli ar ehangu gwasanaethau plant er elw presennol ymhellach, drwy atal ychwanegu gwelyau newydd mewn cartrefi plant er elw a chymeradwyo gofalwyr maeth newydd gan ddarparwyr gwasanaethau maethu er elw presennol.

Mae'r mesurau hyn yn cefnogi ymrwymiad statudol Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd drwy Ddeddf 2025, i'w gwneud yn bosibl i newid i fodel gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bwriad y cynnig i gyflwyno'r cyfyngiadau hyn o 1 Ebrill 2027 yw sefydlogi'r farchnad gofal bresennol ac osgoi sefyllfa lle mae darpariaeth er elw yn ymsefydlu ymhellach yn ystod y cyfnod pontio.

O 1 Ebrill 2027 ymlaen, rydym yn bwriadu cyflwyno'r cyfyngiadau canlynol ar ddarparwyr cartrefi plant a gwasanaethau maethu presennol:

- Ni chaiff cartrefi plant er elw sy'n bodoli eisoes ychwanegu gwelyau.
- Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw ofalwyr maeth newydd gan ddarparwyr gwasanaeth maethu er elw.

Byddai'r cyfyngiadau hyn yn rhagolygol, a dim ond i ehangu yn y dyfodol y byddent yn gymwys. Ni fyddent yn:

- Ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr er elw sy'n bodoli eisoes roi'r gorau i weithredu;
- Yn effeithio ar leoliadau presennol neu blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd;
- Effeithio ar ofalwyr maeth sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan wasanaethau maethu er elw;
- Lleihau capasiti cofrestredig presennol cartrefi plant neu gapasiti gwasanaeth maethu cymeradwy.

Wrth 'lleoliadau presennol', rydym yn golygu trefniadau gofal sydd eisoes ar waith ar gyfer plentyn yn union cyn i'r cyfyngiadau ddod i rym, boed hynny mewn cartref plant

er elw neu gyda gofalwr maeth a gymeradwywyd gan wasanaeth maethu er elw. Ni fyddai'r Rheoliadau hyn, ohonynt eu hunain, yn ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau hynny ddod i ben neu i'r plentyn symud; byddai penderfyniadau ynghylch lleoliad plentyn unigol yn parhau i gael eu llywodraethu gan eu hanghenion asesedig a'u lles pennaf.

Yn ymarferol, gallai plant sydd angen trefniadau gofal newydd (lleoliadau) o 1 Ebrill 2027 gael eu rhoi mewn gwelyau sydd ar gael o fewn y capasiti cofrestredig presennol o gartrefi plant er elw neu gyda gofalwyr maeth sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan wasanaethau maethu er elw; byddai'r cyfyngiadau yn atal ehangu'r ddarpariaeth honno, yn hytrach na gwahardd lleoliadau newydd ynddo.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Cwblhawyd Asesiad Effaith Hawliau Plant blaenorol i gefnogi darpariaethau'r Bil, sydd bellach yn Ddeddf 2025. Nododd bryderon am gynaliadwyedd tirwedd gofal a chymorth sy'n cael ei dominyddu gan ddarpariaeth er elw ac adlewyrchodd safbwyntiau cryf a fynegwyd gan blant a phobl ifanc na ddylid gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Mae'r Rheoliadau yn cefnogi'r diwygiadau ehangach a sefydlwyd gan Ddeddf 2025 ond maent yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â chyfyngiadau ar ehangu yn y dyfodol yn unig.

Nod y polisi dileu elw ehangach yw sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau, lleoliadau a datblygu'r gweithlu, gyda'r bwriad o gefnogi gofal diogel, sefydlog ac o ansawdd uchel i blant sy'n derbyn gofal.

Mae'r Rheoliadau yn cefnogi gweithrediad parhaus Rhan 1, Pennod 1 o Ddeddf 2025. Maent yn canolbwyntio ar atal gwelyau ychwanegol rhag cael eu hychwanegu at gartrefi plant er elw presennol ac atal gofalwyr maeth newydd rhag cael eu cymeradwyo gan ddarparwyr gwasanaethau maethu presennol. Nid ydynt yn effeithio ar leoliadau, darpariaeth na gofalwyr maeth presennol sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan wasanaethau maethu er elw.

Mae'r Rheoliadau yn cefnogi'r rhaglen ehangach o ddiwygio o dan Ddeddf 2025. Bydd unrhyw effeithiau ehangach ar ddylunio gwasanaethau, cyfranogiad plant, dewis lleoliad neu barhad gofal yn dibynnu ar weithredu'r rhaglen ehangach honno a datblygu digon o ddarpariaeth nid-er-elw priodol yn amserol.

Nid yw'r Rheoliadau yn newid cymhwystra ar gyfer gwasanaethau, lleoliadau presennol, safonau gwasanaeth na dyletswyddau darparwyr o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Felly, ni ddisgwylir iddynt gael unrhyw effaith uniongyrchol neu wahaniaethol sylweddol ar blant sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Ystyrir risg anuniongyrchol bosibl isod.

Risg anuniongyrchol bosibl yw y gallai cyfyngu ar ehangu darpariaeth er elw bresennol effeithio ar ddigonolrwydd lleoliad os nad yw darpariaeth nid-er-elw briodol ddigonol yn cael ei ddatblygu mewn modd amserol. Gallai hyn gael mwy o effaith ar blant y gall eu hanghenion fod yn anoddach i'w diwallu, gan gynnwys plant anabl a phlant ag anghenion cymhleth. Bydd y risg hon yn cael ei rheoli drwy gynllunio blynyddol awdurdodau lleol ar gyfer digonolrwydd, monitro a goruchwylio parhaus gan Lywodraeth Cymru, buddsoddi mewn capasiti nid-er-elw a'i ddatblygu, ac ymgysylltu parhaus â darparwyr sy'n ystyried trosglwyddo i fodel nid-er-elw.

Ni fu ymgysylltu uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn benodol ar gyfer y Rheoliadau hyn oherwydd eu bod yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud ag ehangu yn y dyfodol yn unig. Fodd bynnag, mae'r asesiad wedi'i lywio gan dystiolaeth a safbwyntiau a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad ehangach ar symud gofal cymdeithasol plant i fodel nid-er-elw, a gynhaliwyd rhwng 1 Gorffennaf a 23 Medi 2026, gan gynnwys ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc.

Tynnodd ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at bwysigrwydd sefydlogrwydd lleoliadau, perthnasoedd dibynadwy, parhad gofal a chefnogaeth gyson i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sydd â phrofiad o ofal. Mae'r pryderon hyn wedi llywio ystyriaeth o'r risgiau a'r trefniadau lliniaru a nodir yn yr asesiad hwn. Mae'r Rheoliadau yn cyd-fynd â mesurau ar wahân o dan Ddeddf 2025, gan gynnwys cynllunio blynyddol awdurdodau lleol ar gyfer digonolrwydd, a gweithgarwch gweithredu ehangach i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth nid-er-elw priodol ddigonol.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ar gynigion ar wahân i alluogi , mewn amgylchiadau cyfyngedig, i ofalwyr maeth gael eu trin fel rhai a gymeradwywyd gan ddarparwr olynol pan fydd darparwr gwasanaeth maethu er elw yn ailsefydlu fel endid nid-er-elw a ganiateir. Mae'r cynigion hynny wedi'u hystyried mewn asesiad effaith ar wahân ac nid ydynt yn rhan o'r asesiad hwn.

Mae dolen i'r ymgynghoriad i'w chael isod: Symud gofal cymdeithasol plant i fodel nid-er-elw | LLYW. CYMRU

3. Analysing the evidence and assessing the impact

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael unrhyw effaith uniongyrchol sylweddol ar hawliau plant. Gallant gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol trwy gefnogi datblygiad ehangach darpariaeth nid-er-elw priodol. Risg anuniongyrchol bosibl yw y gallai cyfyngu ar ehangu darpariaeth er elw bresennol effeithio ar ddigonolrwydd lleoliad os nad yw darpariaeth nid-er-elw briodol ddigonol yn cael ei datblygu mewn modd amserol. Bydd y risg hon yn cael ei rheoli drwy gynllunio blynyddol awdurdodau lleol ar gyfer digonolrwydd, monitro a goruchwylio parhaus gan Lywodraeth Cymru, a gweithgarwch gweithredu ehangach i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth nid-er-elw addas.

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol sylweddol ar blant a phobl ifanc. Nid yw'r Rheoliadau yn newid cymhwystra plant ar gyfer gwasanaethau, mynediad at gymorth na'r safonau y mae'n rhaid i gartrefi plant a gwasanaethau maethu eu bodloni. Bydd gofynion diogelu presennol, goruchwylio rheoleiddiol a phrosesau adolygu yn parhau i fod yn berthnasol.

Wrth baratoi'r asesiad hwn, rhoddwyd sylw i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Sylwadau Cyffredinol perthnasol, gan gynnwys Sylwadau Cyffredinol Rhif 12 a Rhif 14, i'r graddau y maent yn ymwneud â chyfranogiad plant, lles pennaf plant, a gofal plant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol.

Mae'r hawliau CCUHP dan sylw yn berthnasol ond nid oes disgwyl iddynt gael eu cryfhau na'u herio'n uniongyrchol gan y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau yn cefnogi gweithredu'r darpariaethau dileu elw o dan Ddeddf 2025 yn ehangach. Bydd unrhyw risg anuniongyrchol posibl i ddigonolrwydd lleoliad yn cael ei reoli drwy'r trefniadau lliniaru a ddisgrifir uchod.

Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn

Erthygl 2 Mae gan bob plentyn yr un hawliau, waeth pwy ydyn nhw, o ble maen nhw'n dod, neu sut maen nhw'n edrych.

Mae Erthygl 2 yn berthnasol oherwydd bod y Rheoliadau yn rhan o'r fframwaith ehangach ar gyfer gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal. Nid yw'r Rheoliadau yn newid cymhwystra ar gyfer gwasanaethau, lleoliadau presennol na safonau gwasanaeth, ac maent yr un mor gymwys waeth beth fo nodweddion gwarchodedig neu statws arall plentyn. Ni ragwelir unrhyw effaith gwahaniaethol uniongyrchol sylweddol. Bydd unrhyw risg anuniongyrchol posibl sy'n deillio o ddigonolrwydd lleoliad, yn enwedig i blant ag anghenion cymhleth neu arbenigol, yn cael ei reoli trwy gynllunio, monitro a gweithgarwch gweithredu ehangach awdurdodau lleol.

Erthygl 3 - Lles pennaf y plentyn;

Mae Erthygl 3 yn berthnasol oherwydd bod y Rheoliadau yn rhan o'r fframwaith ehangach ar gyfer gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal. Nid yw'r Rheoliadau yn newid penderfyniadau lleoli unigol na'r gofyniad i drin lles pennaf y plentyn fel prif ystyriaeth. Yr amcan polisi ehangach yw cefnogi datblygiad system gofal nid-er-elw sy'n canolbwyntio ar anghenion a chanlyniadau plant. Yn unol â'r egwyddor a nodir yn Sylw Cyffredinol Rhif 14 ac argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar les pennaf, bydd y gwaith gweithredu yn parhau i flaenoriaethu trefniadau gofal diogel, sefydlog a phriodol i blant unigol.

Erthygl 6 – Bywyd, goroesi a datblygu

Mae Erthygl 6 yn berthnasol drwy'r cyd-destun ehangach o ofal a chymorth i blant sy'n derbyn gofal. Nid yw'r Rheoliadau yn newid lleoliadau, trefniadau gofal na gwasanaethau presennol sy'n cefnogi datblygiad plant yn uniongyrchol.

Erthygl 12 (Parchu safbwyntiau'r plentyn)

Nid yw'r Rheoliadau yn newid yn uniongyrchol sut y ceisir barn plant. Mae hawliau cyfranogiad presennol o fewn cynllunio gofal, adolygiadau a phenderfyniadau am drefniadau gofal yn parhau i fod yn ddigyfnewid. Mae'r asesiad wedi'i lywio gan dystiolaeth a safbwyntiau a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad ehangach, gan gynnwys safbwyntiau a adroddwyd ar ran plant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae'r safbwyntiau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd sefydlogrwydd, perthnasoedd dibynadwy a pharhad cefnogaeth, ac wedi ystyried risgiau gweithredu a chamau lliniaru. Mae hyn yn gyson â Sylw Cyffredinol Rhif 12 ac argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylid rhoi pwys dyladwy i safbwyntiau plant mewn materion sy'n effeithio arnynt.

Erthygl 20 – Plant sydd wedi'u hamddifadu o'u hamgylchedd teuluol

Mae Erthygl 20 yn ymwneud â darparu cartrefi plant a darpariaeth maethu yn y dyfodol. Nid ydynt yn effeithio ar leoliadau presennol. Bydd unrhyw effaith bosibl ar ddigonolrwydd lleoliad yn y dyfodol yn cael ei reoli drwy'r trefniadau lliniaru a ddisgrifir uchod, gan gynnwys monitro digonolrwydd a chynllunio ar gyfer pontio. Yn unol ag argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar blant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol, bydd y gwaith gweithredu yn ceisio lleihau tarfu a chefnogi mynediad at leoliadau sefydlog, priodol sy'n diwallu anghenion plant.

Erthygl 23 – hawliau plant anabl

Nid yw'r Rheoliadau yn newid yn uniongyrchol gymhwystra plant anabl ar gyfer gwasanaethau neu fynediad atynt. Gallai risg anuniongyrchol bosibl godi os na ddatblygir darpariaeth briodol ddigonol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth mewn modd amserol. Bydd hyn yn cael ei fonitro a'i reoli drwy gynllunio digonolrwydd a gweithgarwch gweithredu ehangach.

Erthygl 24 - iechyd a mynediad at wasanaethau priodol.

Nid yw'r Rheoliadau yn newid mynediad plant at wasanaethau iechyd yn uniongyrchol. Mae'r dyletswyddau a'r trefniadau presennol yn parhau i fod yn ddigyfnewid. Byddai unrhyw effaith anuniongyrchol yn codi trwy ddigonolrwydd lleoliad a bydd yn cael ei fonitro drwy'r trefniadau gweithredu ehangach.

Erthygl 28 – Yr hawl i addysg

Nid yw'r Rheoliadau yn newid yn uniongyrchol hawl plant i addysg na threfniadau ar gyfer cefnogi parhad addysgol. Byddai unrhyw effaith anuniongyrchol yn codi trwy ddigonolrwydd lleoliad a bydd yn cael ei fonitro drwy'r trefniadau gweithredu ehangach.

Erthygl 39 – Adferiad ac ailintegreiddio

Nid yw'r Rheoliadau yn newid gwasanaethau sy'n cefnogi adferiad ac ailintegreiddio'n uniongyrchol. Byddai unrhyw effaith anuniongyrchol yn codi trwy'r rhaglen dileu elw ehangach ac argaeledd lleoliadau addas, yn hytrach nag o'r cyfyngiadau hyn yn unig.

Nid oes unrhyw effeithiau ar hawliau dinasyddion yr UE o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion wedi'u nodi.

Mae'r cynnig yn ymwneud â'r gwelyau ychwanegol a'r gofalwyr maeth newydd a fyddai'n cael eu gweithredu o dan ddarparwyr presennol er elw cartrefi plant a gwasanaethau maethu. Mae yr un mor gymwys waeth beth f cenedligrwydd neu statws mewnfudo'r unigolyn ac nid yw'n newid cymhwystra ar gyfer cartref plant neu wasanaethau maethu, mynediad at gymorth, na hawliau a hawlogaethau plant a phobl ifanc.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol ar blant a phobl ifanc sy'n ddinasyddion yr UE neu sy'n elwa o hawliau a ddiogelir o dan Gytundeb Ymadael yr UE, Cytundeb Gwahanu EFTA yr AEE neu Gytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir. Yn unol â hynny, nid oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol wedi'u nodi.

4. Cyngor gweinidogol a phenderfyniad y Gweinidog

Bydd y dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn cael ei gynnwys yn y cyngor Gweinidogol i geisio cytundeb i gyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gosod yr is-ddeddfwriaeth.

5. Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn benodol mewn perthynas â'r Rheoliadau oherwydd eu bod yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud yn unig ag ehangu darparwyr er elw presennol yn y dyfodol. Nid ydynt yn effeithio ar leoliadau, gofal na chymorth presennol.

Fodd bynnag, mae'r asesiad wedi'i lywio gan dystiolaeth a safbwyntiau a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad ehangach, gan gynnwys ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi yn y modd arferol.

Er bod y Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac nad ydynt yn effeithio ar leoliadau na threfniadau gofal presennol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gwybodaeth am weithrediad ehangach y diwygiadau dileu elw, gan gynnwys unrhyw newidiadau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, yn cael ei chyfathrebu mewn ffordd sy'n hygyrch, sy'n briodol i'w hoedran ac yn hawdd ei deall. Bydd hyn yn cynnwys ystyried fformatau a sianeli priodol ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, fel y gallant gael gafael ar wybodaeth am y newidiadau a deall beth maen nhw'n ei olygu yn ymarferol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ehangach ar symud gofal cymdeithasol plant i fodel nid-er-elw rhwng 1 Gorffennaf a 23 Medi 2026. Mae ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc wedi llywio'r asesiad hwn.

Bydd ymgysylltu a chyfathrebu ehangach sy'n ymwneud â gweithredu'r darpariaethau dileu elw yn Neddf 2025 yn parhau i gael eu hystyried drwy'r Bwrdd Gweithredu Gofal Plant Nid-er-Elw newydd, ei ffrydiau gwaith ategol a'r grŵp cyfathrebu elw dileu penodol. Bydd y trefniadau hyn yn darparu ystyriaeth o lwybrau priodol ar gyfer cyfathrebu'r cyfyngiadau a'r gweithgareddau gweithredu cysylltiedig.

6. Monitro ac Adolygu

Mae'r asesiad effaith wedi'i adolygu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn parhau i gael ei adolygu fel rhan o fonitro a gwerthuso ehangach o weithredu'r darpariaethau dileu elw o dan Ddeddf 2025.

Bydd unrhyw adolygiad o'r polisi, deddfwriaeth neu drefniadau gweithredu yn y dyfodol yn cynnwys ystyried a ddylid diweddaru'r asesiad hwn. Bydd monitro yn ystyried unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg ar ddigonolrwydd lleoliad, mynediad at ddarpariaeth addas a chanlyniadau plant, gan gynnwys unrhyw effeithiau

anuniongyrchol neu anfwriadol ar hawliau plant ac unrhyw effeithiau anghymesur ar blant anabl a phlant ag anghenion gofal a chymorth cymhleth sy'n deillio o bwysau digonolrwydd lleoliad.

Ar ôl eu gweithredu, bydd materion neu adborth sy'n deillio o weithrediad y Rheoliadau yn cael eu hystyried drwy fonitro polisi parhaus. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro ac yn gwerthuso gweithredu darpariaethau dileu elw ehangach Deddf 2025, gan gynnwys effeithiau ar ddigonolrwydd lleoliad a chanlyniadau i blant, a bydd yn ymateb i unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg neu anfwriadol.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfredol, nid oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi. Mae'r Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac yn cefnogi'r amcanion polisi elw dileu elw ehangach o dan Ddeddf 2025. Ni ddisgwylir iddynt gael unrhyw effaith uniongyrchol sylweddol ar hawliau plant, ond bydd y gwaith gweithredu'n cael ei fonitro i sicrhau bod unrhyw effaith anuniongyrchol ar ddigonolrwydd lleoliad yn cael ei nodi a'i datrys.

Ni ddisgwylir unrhyw effaith negyddol uniongyrchol sylweddol ar hawliau plant. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol yn cael eu llywio gan dystiolaeth o'r gweithredu, adborth rhanddeiliaid a monitro digonolrwydd lleoliadau a chanlyniadau plant.